**Lesley Griffiths AC / AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-951
Ein cyf/Our ref LG/00650/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

17 Mawrth 2020

Annwyly Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Mawrth ynghylch Deiseb P-05-951 Gosod Terfyn Cyfreithiol ar Nifer Uchaf y Geist Bridio.

Byddai angen newid deddfwriaeth er mwyn cyflawni'r camau a gaiff eu hawgrymu. Nodais yn glir yn fy Natganiad Ysgrifenedig fod yn rhaid mynd i'r afael â'r rhwystrau i orfodi y mae Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu cyn cynnig diwygiadau i'r Rheoliadau Bridio presennol. Heb wneud hyn ni fydd y rheoliadau newydd yn effeithiol.

Mae nifer o argymhellion wedi deillio o'r adolygiad diweddar o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) 2014 a gynhaliwyd gan Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a bydd swyddogion yn mynd i'r afael â'r rhain yn awr.

Gallwch weld yr adroddiad a'i argymhellion gan ddefnyddio'r ddolen isod:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygu-rheoliadau-lles-anifeiliaid-bridio-cwn-cymru-2014

Hoffem eich sicrhau nad ydym yn anwybyddu'r dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno. Rwy'n siwr eich bod yn cytuno bod yn rhaid i unrhyw newidiadau i'r deddfwriaeth neu unrhyw gamau gorfodi fod yn gymesur ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n rhaid sicrhau nad oes unrhyw fylchau mewn unrhyw newidiadau rheoliadol yn y dyfodol a'u bod yn cyflawni'r hyn a fwriedir, a gall hyn gymryd amser.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Lesley Griffiths AC / AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs